## Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion Y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher 12 Mai 2010 am 09:30am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain Jones, W L Cowie (sylwebydd), J A Davies, J M Davies, M Ll Davies, (sylwebydd) P A Dobb, P C Duffy, G C Evans, R L Feeley, I A Gunning, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, D Owens, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogi) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd) gyda Swyddog Priffyrdd (Medwyn Williams).

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr M Eckersley, I Pennington, C Hughes, B Smith, N J Hughes.

### 17 MATERION BRYS

Dywedodd y Rheolwr Cynllun Lleol wrth yr aelodau y bydd dogfen y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei roi yn eu blychau post yn Neuadd y Sir cyn bo hir.

**NEWID AELODAETH**

Bydd y Cynghorydd R L Feeley yn cymryd lle'r Cynghorydd B Cowie fel cynrychiolydd y grŵp annibynnol ar unwaith.

**ETHOL CADEIRYDD**

Gofynnodd y Cynghorydd G C Evans am bleidlais gudd pe byddai etholiad.

Gan fod y nifer gofynnol o aelodau wedi dangos eu cefnogaeth, *penderfynwyd* cynnal pleidlais gudd pe byddai angen etholiad i benodi Cadeirydd.
Gofynnwyd am enwebiadau am swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.
Cafodd Selwyn Thomas ei enwebu gan P Duffy a'i eilio gan E R Jones.
Gan na chafwyd rhagor o enwebiadau, etholwyd y Cynghorydd S Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

**ETHOL IS GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau am swydd yr Is-gadeirydd.

Cafodd y Cynghorydd Ray Bartley ei enwebu gan G C Evans a'i eilio gan D I Smith.

Gan na chafwyd rhagor o enwebiadau, etholwyd y Cynghorydd Ray Bartley yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

### 18 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) gyda'r cynlluniau a gyflwynwyd ac sydd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a chaniatáu neu wrthod, fel bo'r achos, ganiatâd cynllunio o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a / neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ar gyfer y datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a geir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 16/2009/1546/PF | Ar ôl ystyried ymweliad safle a gynhaliwyd am 08:30am ddydd Gwner 7 May a llythyr arall gyda sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanbedr ac eglurhad o'r hanes cynllunio<br>Dymchwel garej ddwbl ynghlwm wrth anheddle presennol, adeiladu anheddle pedair ystafell wely gyda garej ar wahân, adeiladu garej newydd, ddwbl, arwahân gan gynnwys adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ar gyfer yr anheddle presennol a gwaith cysylltiedig.<br>**Ffordd Fain Lôn y Mynydd Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun**<br>**CANIATÁU** |
| 21/2010/0251/PF | Ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanbedr<br>Ail-leoli mynedfa maes parcio i wella adnoddau parcio i ymwelwyr<br>**Maes Parcio Uchaf, Parc Gwledig Moel Famau, Ffordd y Goedwig, Llanferres, yr Wyddgrug**<br>**CANIATÁU**<br>Yn amodol ar amodau gwaith diwygiedig<br>3. AMOD CYN DECHRAU<br>Ni chaniateir dechrau datblygu nes y cyflwynir i, a bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig, fanylion llawn cynllun ar gyfer tirlunio'r safle a bydd cynllun o'r fath yn cynnwys y manylion canlynol:.<br>(a) pob coeden, gwrychoedd a llystyfiant arall ar y tir, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw a sut y bwriedir eu diogelu yn ystod y datblygiad.<br>(b) coed, gwrychoedd, prysglwyni neu lystyfiant newydd y bwriedir eu plannu, gan gynnwys cyfansoddiad glaswellt / tywyrch a chadarnhad o'r rhywogaeth, nifer, lleoliad a pha bryd y bwriedir plannu.<br>(c) y defnyddiau y bwriedir eu defnyddio ar y fynedfa, mannau parcio, llwybrau ac unrhyw fannau eraill gydag wynebau caled.<br>(d) y gwaith pridd arfaethedig, graddio a phentyrru tir a newidiadau mewn lefelau, y cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrrau arfaethedig gyda'r llystyfiant presennol a ffurf y tir o amgylch.<br>(e) safle, dyluniad, defnyddiau a math o derfyn.<br>4. Rhaid plannu, hadu, gosod tywyrch, ffensio, codi waliau, a gwaith arall sydd wedi'i gynnwys yn y manylion tirlunio sydd wedi'u cymeradwyo, ddim hwyrach na'r tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl darfod y datblygiad a bydd raid plannu yn lle unrhyw goeden neu blanhigyn a fydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw, yn cael eu tynnu neu'n cael eu difrodi neu sydd ag afiechyd difrifol, gydag eraill o faint a rhywogaeth debyg yn ystod y tymor plannu nesaf. |

| | |
|---|---|
| 45/2010/0332/PF | Codi estyniad unllawr a deulawr to brig ar du ôl tŷ annedd<br>**Fferm Bryntirion, Rhuallt, Llanelwy**<br>**CANIATAU** |

(ii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 27/2009/1231/PF | **SIARADWR DROS D MIDDLETON**<br>(Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas a Rhys Hughes ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y ddau'r Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod). Cymerodd Ray Bartley'r gadair ar gyfer yr eitem hon.<br>Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth yr ymgeisydd ynghylch yr effaith a gai'r bwriad ar lain byffer Safle Treftadaeth y Byd<br>Newid defnydd tir drwy osod Naw carafán wyliau â chladin pren a gwaith cysylltiedig<br>**Llynnau Penvale, Llandysilio, Llangollen**<br>**GWRTHOD** |

**19 MATERION GORFODAETH**

| | |
|---|---|
| ENF/2009/00039 | Ardal seler heb ei hadeiladu yn unol â Materion a Gadwyd yn Ôl, rhif cod caniatáu 3/2005/0693/PR<br>**Plas Derwen Ffordd yr Abaty Llangollen**<br>***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor Cynllunio'n awdurdodi cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth gyda chyfnod cydymffurfio o dri mis yn gofyn am adfer yr ardal seler yn unol â'r hyn a gafodd ei gymeradwyo fel Mater a Gadwyd yn Ôl, rhif cod caniatáu 03/2005/0693/PR*<br>*Dechrau ar achos erlyn os bydd unrhyw berson mae'r Rhybudd Gorfodaeth wedi'i gyflwyno iddo / iddi yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio â darpariaethau'r Rhybudd.* |

**20 APÊL CYNLLUNIO**
**NEWID AMOD RHIF 3 AR GANIATÂD CYNLLUNIO RHIF CÔD 23/2004/0749/PF I GANIATÁU DEFNYDDIO CARAFANAU SEFYDLOG AR GYFER GWYLIAU AM 12 MIS**
**MAES CARAFANAU LLWYN AFON, LLANRHAEADR Y.C. DINBYCH**
**RHIF Y CAIS 23/2009/1368/PS**

Datganodd S Thomas ddiddordeb yn yr eitem hon ac aeth o'r siambr tra'r oedd yn cael ei thrafod.

Cymerodd y Cynghorydd R Bartley'r Gadair yn ei absenoldeb.

Cyflwynwyd: adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r aelodau o'r apêl uchod a fydd yn cael ei phenderfynu drwy wrandawiad.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu dau gynrychiolydd i fynychu'r gwrandawiad.

***PENDERFYNWYD*** *fel cynigydd ac eilydd penderfyniad y pwyllgor i wrthod caniatâd, enwebu'r Cynghorwyr J Bellis ac I Gunning i gynrychioli'r Pwyllgor Cynllunio yn y Gwrandawiad Apêl uchod.*

**21 EITEMAU ER GWYBODAETH**

**PROTOCOL AR GYFER CYSYLLTU Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Cyflwynwyd Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gyda manylion protocol ar gyfer cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth*

**22 GWASANAETH APELIADAU DEILIAID TAI**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu Aelodau o ran Sir Ddinbych yng nghynllun peilot yr Arolygaeth Cynllunio ar gyfer ymdrin ag apeliadau deiliaid tai a soniodd am nodweddion allweddol y cynllun newydd.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad er gwybodaeth*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40am.

**********